CYNGOR CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 12fed o Fawrth 2025 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Bethan Holding | Gwilym Evans (cadeirydd) | |
| Rhys Ap Gwilym | Aled Hughes | |
| Emlyn Baylis | Louise Price | |
| Llinos Pritchard | | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Gwilym Evans. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Kim Jones, Cynghorydd Trystan Thomas, Cynghorydd Helen Sharp, Cynghorydd Iwan Harding, a'r Cynghorydd Iola Owen. Cyflwynodd y Cynghorydd Sir ei adroddiad ac os oedd cwestiwn yna roedd yn fodlon i'w ateb. | **CLERC** |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| **1.2** | Baw Ci - fe gyflwynwyd y Cynghorydd Louise Price adroddiad lafar ar y broblem barhaus o'r baw ci sydd ymhobman yn y pentref. Cafwyd trafodaeth a phenderfynwyd gwneud cais i'r ysgol i weld os byddent yn fodlon i greu ffilm ar y mater er mwyn ei ddefnyddio a'r gwefannau cymdeithasol. Y Clerc i anfon at yr ysgol. | **Clerc** |
| **1.3** | Parcio - fe anfonwyd adroddiad gan y Cynghorydd Helen Sharp bod parcio ar draws mannau mynediad i balmentydd yn achosi problem i drigolyn sydd yn defnyddio cadair olwyn. Trafodwyd y mater. Penderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn oes modd cael llinell felen mewn siâp H ar y cwrb gostwng yn Maes Padarn er mwyn trio sicrhau bod yr ardal yma ar gael i'r trigolyn. Y Clerc i anfon ymlaen y cais. | **Clerc** |
| **1.4** | Pont Meibion Nant Peris - nid yw'r bont bydd yn ei lle ond yn anffodus nid yw swyddogion Cyngor Gwynedd yn gallu cwblhau'r gwaith oherwydd nid ydynt yn gallu gwneud gwaith o fewn afonydd hyd nes mis Mai oherwydd rheoliadau tu allan i'w cyfrifoldebau. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| **3.1** | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Chwefror 2025 a'u derbyn. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Chwefror 2025 | |
| **4.2** | Bin sbwriel Cae Chware Lan Llyn. Dim dilyniant ar y mater hyd yma. Y Clerc i wneud ymholiadau. | **CLERC** |
| **4.3** | Cerflun Stryd/Coffa Chwarelwyr - Dim dilyniant ar y mater wedi bod yn ddiweddar. Mae Swyddogion Cyngor Gwynedd yn edrych ar leoliadau eraill. | **CLERC** |
| **4.4** | Storfa y Cyngor – mae cyfarfod gyda swyddog Sant Ioan wedi ei drefnu gan y clerc er mwyn trafod defnydd a chostau y storfa. | **CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| **4.5** | Campfa Awyr Agored - mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn penderfyniad y Cyngor Cymuned i ddefnyddio Playquest. Disgwylir bellach am gyfarwyddyd i gychwyn ar y gwaith. | **CLERC** |
| **4.7** | Is-ddeddfau - dywedodd bod y Clerc ei bod wedi gwneud mwy o ymchwil i gyflwyno is-ddeddfau. Roedd Unllais o'r farn bod hyn yn bosib ond bod gorfodaeth yn anodd ac mewn sawl achos mae'r gwasanaeth gorfodaeth yn gorfod cael ei brynu gan yr awdurdod lleol. Yn achos cilfannau aros ar y A4086 sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd byddai hyn yn golygu bod y Cyngor Cymuned yn talu i Gyngor Gwynedd i orfodi ar cilfannau eu hunain. Penderfynwyd byddai monitro'r cilfannau a thynnu lluniau i gael tystiolaeth o'r broblem er mwyn anfon eto at Gyngor Gwynedd. | **CLERC** |
| **4.8** | Waliau fyny i'r bwlch - dim dilyniant wedi bod hyd yma. Gobeithir gwneud gwaith yn y gwanwyn. Oherwydd y tywydd garw dros y gaeaf nid yw'n ddiogel i weithwyr weithio ar y waliau. | **GTE** |
| **4.9** | Campfa Awyr agored - dim dilyniant hyd yma. | |
| **4.10** | Biniau Halen - nid yw'r rhain wedi ei symud hyd yma. Dywedodd y Cynghorydd Llinos Pritchard bod bin halen sydd ar y ffordd i'w thŷ hi wedi ei leoli mewn lleoliad anghyfleus a byddai ei symud i fyny'r allt yn fwy delfrydol. Trefniadau i'w symud i gael ei wneud. | |
| **5.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| **5.1** | Cafwyd gwybodaeth bod cwynion am lwybr at Eglwys Sant Peris. Trafodwyd y mater hwn a phenderfynwyd gofyn am dri phris ar gyfer ei adfer. Penderfynwyd ar y contractwyr a'r Clerc i gysylltu â hwy am bris. | **CLERC** |
| **6.0** | **Y FYNWENT** | |
| | Dim adroddiad | **CLERC** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | Dim ceisiadau | |
| **8.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| **8.1** | Aelodaeth o'r grŵp i'w gael ei adolygu yn y cyfarfod blynyddol lle bydd aelodaeth y pwyllgor yn cael eu penderfynu. | |
| **9.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| | Dim adroddiadau | |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 9 yn y r hwyr. | |
| **Llofnod:** | Gwilym T. Evans | **Dyddiad: 9/4/25** |